ymdroi i siarad am rai o'r teuluoedd oedd wedi eu claddu yno. Daeth gŵr gyda phlentyn bychan atom a gofyn gydag acen Americanaidd, *"Are you Vivian?"* Cadarnhaodd yntau hynny ac eglurodd y dieithryn fod rhywun wedi gweld Vivian yn mynd i'r fynwent ac wedi awgrymu y gallai, am ei fod yn hanesydd lleol, ei helpu i ddarganfod bedd un o'i gyn deidiau. *"What is the name of your ancestor?"* gofynnodd Vivian. *"Owen Jones"*, atebodd y dieithryn, a dyma fi'n cynhyrfu'n lân! A oedd hwn yn ddisgynnydd i Owen Jones, Glasgwm Hall, ac wedi dod yma i chwilio am ei fedd? Cymerodd Vivian yn ganiataol mai am fedd Owen **Gethin** Jones roedd yn chwilio ac fe aethom at fedd y gŵr enwog. *"I've got some papers in the car, would you like to see them?"* gofynnodd yr Americanwr, oedd wedi cyflwyno ei hun fel Matthew Ogburn erbyn hyn. Mynegais innau fy niddordeb yn syth.

Darganfyddiad hynod

Dangosodd Matthew ei bren achau a dyma weld yr enw roeddwn yn ddyheu i'w weld sef **Owen Jones, Glasgwm Hall**, ac uwch ei ben ei dad William Jones, Bryn Glas, a'i daid David Jones ac oddi tano enw y mab a aeth i'r America, sef **William Ogwen Jones**. O'r diwedd roeddwn yn gwybod enw taid fy mam! Roeddwn yn crynu erbyn hyn. Gwelais fod Matthew, er dros ugain mlynedd yn iau na mi, o'r un genhedlaeth â mi. Roedd William Ogwen Jones yn hen daid i'r ddau ohonom. Dyma'r nodwydd mewn tas wair yn sefyll o'm blaen heb i mi hyd yn oed ddechrau chwilio amdani!

Aethom at fedd Owen Jones a chyfieithais y geiriau Cymraeg iddo. Y broblem wedyn oedd sut oeddwn i yn mynd i ddweud wrtho am ein perthynas. "Mae gen i stori i'w dweud ond wn i ddim sut yr ydych yn mynd i ymateb," meddwn ac es ymlaen i ddweud y stori adroddodd fy mam wrthyf. Roedd yn gwrando'n astud ac ar y diwedd dywedodd, *"Wow, what a lovely story, I guess we're related!"* a dyma ysgwyd llaw mawr a chyfnewid cyfeiriadau.

Cyd-ddigwyddiad rhyfeddol

Dywedodd Matthew mai ei fam, Jannette Jones Ogburn, oedd yr hanesydd teuluol a nos Sul anfonais neges e-bost hir iddi. Roeddwn wrth fy modd fore Mercher pan gefais neges hir yn ôl. Roedd wedi gwirioni a rhyfeddu at gyd-ddigwyddiad ein cyfarfod. Roedd ei thad wedi ymweld â Phenmachno yn y saith degau ond heb lwyddo i gyfarfod disgynyddion i deulu Glasgwm Hall. Dywedodd fod ail wraig ei thad wedi dweud unwaith, *"I heard that William Ogwen had gotten a girl into trouble and had been forced to leave Wales"*. Doedd y stori felly ddim yn sioc i'r teulu.

Mae nifer o negeseuon e-bost wedi mynd yn ôl ac ymlaen dros fôr yr Iwerydd ers hynny yn cyfnewid gwybodaeth a chefais hanes William Ogwen yn setlo yn San Francisco a magu teulu. Ym mysg y storiau difyr roedd hanes eu tŷ yn cael ei ddinistro yn naeargryn fawr San Francisco yn 1906.

Yn rhyfedd iawn roedd fy nhaid o ochr fy nhad, Thomas Roberts, saer coed o Victoria



Owen Jones, Glasgwm Hall

Inn, Llithfaen wedi mynd i San Francisco yn 1906 gyda chriw o hogia Pen Llŷn ymysg cannoedd o grefftwyr aeth yno i ail adeiladu'r ddinas yn dilyn y drychineb ond ni chyfarfu Thomas Roberts â William Ogwen. Bu teulu fy nhaid yn cadw Tafarn y Fic yn Llithfaen am tua 80 mlynedd a chofiaf pan yn blentyn mynd yno yn aml gyda taid i weld ei ddwy chwaer, Hannah a Minnie, oedd yn rhedeg y dafarn pryd hynny. Ni wn am ba hyd fu Thomas Roberts yn San Francisco ond gwn ei fod yn ôl yn Llithfaen yn priodi Ellen Williams o Fryn Meirion ym mis Mawrth 1909. Cofiaf taid yn adrodd ei hanes ac enwau ei gyd-weithwyr yn San Francisco ond yn anffodus ni chofiaf eu henwau erbyn hyn. Fe hoffwn wybod mwy am hanes y criw o Ben Llŷn aeth i San Francisco yn 1906. Tybed oes disgynnydd i rywun arall o'r criw sydd yn gwybod dipyn mwy na mi am yr antur yma?

Tynnu tonsils John Steinbeck

Cafodd William Ogwen ferch ac un mab, Horace Glynne Jones, taid Matthew. Bu Horace Glynne Jones yn feddyg teulu mewn tref fechan tu allan i San Francisco o'r enw Los Gatos. Ym mysg yr hanesion cefais gopi o deyrnged iddo gan dad Yehudi Menuhin am fod yn feddyg a ffrind i'r teulu. Stori arall oedd iddo dynnu tonsils yr awdur John Steinbeck pan yn blentyn a daeth y ddau yn ffrindiau mawr. Byddai John Steinbeck yn anfon copi drafft o'i nofelau i Horace Glynne er mwyn iddo sicrhau fod y ffeithiau meddygol ynddynt yn gywir. Wrth ddarllen yr hanesion yma roedd yn anodd credu fod y dyn yma yn frawd i'm nain a ninnau yn gwybod dim am ei fodolaeth.

Ym mis Ionawr 2003 cefais album lluniau drwy'r post yn cynnwys lluniau o William Ogwen a lluniau o Glasgwm Hall. Gwerthodd Stad y Penrhyn Glasgwm Hall, gyda nifer o ffermydd yn yr ardal. i'r Comisiwn Coedwigaeth yn 1929 ond fe losgwyd Glasgwm Hall tua 1940 a does dim ohono ar ôl erbyn hyn a da oedd derbyn lluniau yr holl ffordd o'r Unol Daleithiau.

Es innau ati i geisio darganfod disgynyddion i frodyr a chwiorydd William Ogwen a llwyddais i ddarganfod gweddw i un o wyrion chwaer William Ogwen yn byw yn Llanfyllin. Roedd ganddi ferch a dau fab. Roedd un mab wedi bod yn byw yng Nghalifornia ers ugain mlynedd heb wybod dim fod ganddo berthnasau yn byw o fewn taith ugain munud iddo! Mae yn eu hadnabod erbyn hyn ac maent mewn cysylltiad, diolch i'r cyfarfyddiad ym mynwent Penmachno.

O.N. Ar fap OS heddiw, fe welir 'Plas Glasgwm' - lle arall oedd hwn wrth ymyl Glasgwm Hall . Fe achosodd hyn gryn benbleth i mi ar y dechrau gan feddwl ma'r un lle oedd ond fod rhai yn defnyddio enw Cymraeg ac eraill (megis yr Arglwydd Penrhyn) yn defnyddio'r enw Saesneg. Mae'n debyg mai 'home farm' Glasgwm Hall oedd Plas Glasgwm (cartref Ifan a Maggie Roberts aelodau o'r parti enwog Parti Penmachno)

LLYFRYDDIAETH

"Plwyf Penmachno" gan Vivian Parry Williams, Gwasg Carreg Gwalch, 1996
"Owen Gethin Jones: Ei Fywyd a'i Feiau" gan Vivian Parry Williams, Gwasg Carreg Gwalch, 2000

AR WERTH

1. Grimes, W F: The Prehistory of Wales, National Museum of Wales, 1951 £18.00
2. ap Gwilym, G & Lewis, R H: Maldwyn ai'i Chyffiniau, 1981 £3.00
3. Griffiths, b (gol.): Gwerin-Eiriau Maldwyn, 1981, (fel newydd)£3.00
4. Llywelyn-Williams, A: Gwanwyn yn y Ddinas, 1975 £3.00
5. Y Farddoniaeth Wobrwyedig yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1880 £5.00
6. Filip, Jan: Celtic Civilization & its Heritage, 1960 £3.50
7. Jones, David: Selected Works, ed. J Mathias, UWP £5.00
8. Jones, G T & Roberts, T : Enwau Lleoedd Môn, 1996 (fel newydd) £8.00
9. Morris, Lewis : Tlysau yr Hen Oesoedd, Adarg. 1999 (fel newydd) £5.00
10. Lewis, S: Meistri a'u Crefft, GPC, 1981 £7.00

Cludiant yn ychwanegol

Rhy ddrud? Gwnewch gynnig! Yn chwilio am lyfr? Ymholwch â ni. Bruce Griffiths, 5 Heol Belmont, Bangor, Gwynedd, LI57 2HS. *Ffonier: 01248 371987 neu e-bostier:* anncorkett@talktalk.net

DARLLEN

Diolch i Mrs. Mair Thomas, Weirglodd Ddu, Llanuwchllyn am ddarparu tapiau llafar ar erthyglau a ymddangosodd yn rhifyn y Nadolig Y Casglwr ar gyfer pobol ardal Penllyn. Mae'r deillion yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

YN EISIAU

Caniadau Glannau Llugwy,
Ellis Morris Roberts 1866/1936
Cysylltir ar (01745) 812642